**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Medi 2025. Mae’r Bil ar gael yn: Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) - Biliau Seneddol - Senedd y DU

## Amcan(ion) y Polisi

3. Mae'r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) yn rhoi effaith i'r ymrwymiad ym maniffesto 2024 y Blaid Lafur i gyflwyno 'Cyfraith Hillsborough' a fydd yn "gosod dyletswydd gonestrwydd gyfreithiol ar weision cyhoeddus ac awdurdodau, ac yn darparu cymorth cyfreithiol i ddioddefwyr trychinebau neu farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth". Nod y Bil yw sicrhau na all yr hyn a ddigwyddodd yn dilyn y drychineb fyth ddigwydd eto. Mae'r Bil yn darparu bod swyddogion cyhoeddus i gael eu rhwymo gan ddyletswyddau gonestrwydd gyda chanlyniadau troseddol a phroffesiynol. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau y bydd camau yn cael eu cymryd i helpu i rymuso teuluoedd mewn profedigaeth i gymryd rhan effeithiol mewn cwestau pan fo'r wladwriaeth dan sylw - gan helpu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd o ran grym a hyrwyddo tryloywder a thegwch.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

5. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:

- Gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus a swyddogion cyhoeddus i weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a didwylledd.
- Gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r ddyletswydd honno yn eu hymwneud ag ymchwiliadau ac archwiliadau.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo ymddygiad moesegol, a chymryd camau i gynnal yr ymddygiad hwnnw, ym mhob

[1] Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel “Senedd Cymru” y tro cyntaf ac fel “y Senedd” ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.

rhan o'r awdurdod, gan gynnwys llunio cod moeseg gorfodol sy'n cynnwys dyletswyddau mewn perthynas â gonestrwydd.
- Creu trosedd o awdurdodau cyhoeddus a swyddogion cyhoeddus yn camarwain y cyhoedd.
- Creu troseddau pellach mewn perthynas â chamymddwyn gan bersonau sy'n dal swydd gyhoeddus ac i ddiddymu'r drosedd cyfraith gyffredin o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.
- Gwneud darpariaeth sy'n galluogi personau i gymryd rhan mewn ymchwiliadau ac archwiliadau pan all ymddygiad awdurdodau cyhoeddus fod yn broblem, ac at ddibenion cysylltiedig.
- Ehangu cymorth cyfreithiol nad yw'n dibynnu ar brawf modd i deuluoedd mewn profedigaeth ar gyfer cwestau yng Nghymru a Lloegr pan fo awdurdod cyhoeddus yn Berson â Buddiant.
- Cynnwys mesurau pellach gyda'r nod o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad cynrychiolwyr cyfreithiol mewn cwestau.

6. Yn 2009, sefydlodd Llywodraeth y DU Banel Annibynnol Hillsborough ac yn dilyn hynny, cynhaliwyd archwiliad newydd i honiadau o gamymddwyn a throseddu gan yr heddlu, ochr yn ochr â set newydd o gwestau. Yn dilyn y cwestau, comisiynodd y Llywodraeth yr Esgob James Jones - Cadeirydd Panel Annibynnol Hillsborough - i lunio adroddiad ar brofiadau teuluoedd Hillsborough ac ar yr un pryd, wrth ymateb i'r un materion, datblygwyd y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Atebolrwydd) gan ymgyrchwyr a'i gyflwyno fel Bil Aelod Preifat gan y Gwir Anrhydeddus Andy Burnham. Methodd y Bil, a ddaeth yn adnabyddus fel "Cyfraith Hillsborough", pan ddiddymwyd Senedd y DU ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2017. Ym mis Medi 2024, ymrwymodd Prif Weinidog y DU i weithredu dyletswydd gonestrwydd.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

7. Cafodd fy swyddogion destun drafft cychwynnol o'r Bil ar 28 Chwefror 2025. Ychydig o ymgysylltu a chyfranogiad a fu wrth ddatblygu'r Bil, ac roedd ymgysylltiad Swyddfa Cabinet y DU "er gwybodaeth" yn bennaf.

8. Mae fy swyddogion wedi cwrdd â swyddogion Llywodraeth y DU; gan roi sylwadau a holi cwestiynau i ganfod diben, cwmpas ac effaith y Bil arfaethedig. Fodd bynnag, dim ond rhai cymalau arfaethedig a nodiadau drafft o'r Bil drafft a gafodd fy swyddogion yn ystod y trafodaethau hyn. Ni chawsant ddrafft terfynol a llawn o'r Bil tan ddydd Iau 11 Medi, tri diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno arfaethedig na'r nodiadau esboniadol terfynol tan 15 Medi, y diwrnod cynt.

9. Rydym yn cydnabod yr heriau a wynebir wrth lunio Bil o'r fath o ystyried y diddordeb gwleidyddol a chyhoeddus, a'r pwysau, ochr yn ochr â'r brys y tu ôl iddo. Fodd bynnag, mae sicrhau ymgysylltiad digonol i ddeall y cwmpas, y goblygiadau a'r effaith cyn ei gyflwyno wedi bod yn heriol. Yn benodol, rydym wedi cydnabod pa mor bwysig yw trafodaethau parhaus Llywodraeth y DU ar gynnwys y Bil gyda goroeswyr Hillsborough, teuluoedd mewn profedigaeth a grwpiau cynrychioliadol fel Hillsborough Law Now. Fodd bynnag, mae angen hanfodol hefyd i ymgynghori â

sefydliadau a chyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt, ac i ystyried effeithiau gwahaniaethol yng Nghymru, a hynny'n seiliedig ar gynigion clir ar gyfer cynnwys y ddeddfwriaeth.

**Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Bresennol a Goblygiadau i Ddeddfwriaeth Arall**

10. Mae'r Bil yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol (sy'n gymwys i Gymru):

- Deddf Ymchwiliadau 2005, gan gynnwys adrannau 27 i 30 sy'n ymdrin â'r pwerau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau statudol; ac adrannau 35 i 56 (sy'n ymdrin â throseddau a gorfodi o dan y Ddeddf honno).
- Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, gan gynnwys adran 36 sy'n ymwneud ag adroddiadau a chyngor i'r Arglwydd Ganghellor gan y Prif Grwner; adran 42 sy'n ymwneud â phŵer yr Arglwydd Ganghellor i ddyroddi canllawiau; adran 45 sy'n ymdrin â rheolau'r crwner; ac Atodlenni 5 a 6 sy'n ymwneud â phwerau crwneriaid mewn archwiliadau a gynhelir yng Nghymru a Lloegr a throseddau o dan y Ddeddf honno.
- Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, gan gynnwys: adran 10 sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol sifil ar gyfer achosion eithriadol; Atodlen 1 sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfreithiol sifil; a Rhan 3 sy'n ymwneud ag argaeledd eiriolaeth.
- Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau) 2013.
- Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) 2013.
- Adran 46 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth adolygu a ddylid gosod dyletswyddau tryloywder a gonestrwydd ychwanegol ar weision cyhoeddus mewn perthynas â digwyddiadau mawr. Mae adran 46 yn cael ei diddymu gan y Bil.
- Mae'r Bil hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r darpariaethau deddfwriaethol canlynol: adran 69A o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, adran 178A o Ddeddf Elusennau 2011 ac adran 6 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015.

11. Mae'r Bil yn creu trosedd newydd o gamarwain y cyhoedd (cymal 11) ac yn diddymu'r drosedd cyfraith gyffredin o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol (adran 16).

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

12. Yn fy marn i, oherwydd ei natur drawsbynciol, mae'r Bil cyfan bron yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig, neu'r ddau. Yn benodol, y rhannau o'r Bil sy'n gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 yw:

    - Cymalau 1 i 5 a 7 i 10 (Gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd etc a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus);
    - Cymalau 12 a 14 i 16 (Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus);

- Cymalau 18 (yn rhannol) a 20 i 25 (Darpariaethau amrywiol a therfynol); ac
- Atodlen 1 (Rhannau 1, 2 a 6) ac Atodlenni 2 i 4 a 6 (yn rhannol).

13. Er cyflawnder, y rhannau o'r Bil nad ydynt yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 yw cymalau 6, 11, 13, 17, 19 a 26, Atodlen 1 (Rhannau 3 i 5) ac Atodlen 5.

14. Mae'r rhannau o'r Bil sy'n gwneud darpariaeth berthnasol isod.

- Mae cymal 1 yn crynhoi diben ac effaith y Bil. Gan fod y Bil yn bodloni'r prawf yn RhS 29 i raddau helaeth, mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn bodloni'r prawf hwnnw ac felly'n gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 2 ac Atodlen 1 yn gosod 'dyletswydd gonestrwydd a chymorth' ar awdurdodau cyhoeddus sy'n ymwneud â'r mater ymchwiliadau nad yw'n fater a gedwir yn ôl ac sy'n gymwys i wahanol Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Felly, mae'r darpariaethau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 3 wedi'i gysylltu'n anorfod â'r ddyletswydd gonestrwydd a chymorth, (gan ei hategu a diffinio ei chwmpas) ac felly'n gwneud darpariaeth berthnasol am yr un rhesymau â chymal 2.

- Mae cymal 4 yn estyn y ddyletswydd yng nghymal 2 i endidau penodol nad ydynt yn gyrff cyhoeddus. Gan ei fod yn estyn dyletswydd sy'n gyfystyr â darpariaeth berthnasol, mae'r cymal hwn hefyd yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 5 ac Atodlen 3 yn darparu ei bod yn drosedd i dorri'r ddyletswydd gonestrwydd a chymorth. Mae'r drosedd hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae'r ddarpariaeth hon mewn unrhyw achos yn ymwneud yn agos â chymal 2. Am y rhesymau hyn, mae'r darpariaethau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 7 yn gwneud darpariaeth drosiannol ynghylch cwmpas amserol y ddyletswydd gonestrwydd a chymorth (h.y. a fydd yn gymwys i ymchwiliad a ddechreuwyd ar adeg benodol). Am y rheswm hwn, mae wedi'i gysylltu'n agos â chymal 2 ac yn gwneud darpariaeth berthnasol am yr un rhesymau.

- Mae cymal 8 ac Atodlen 2 yn darparu diffiniadau o dermau allweddol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd gonestrwydd a chymorth ac felly'n gwneud darpariaeth berthnasol am yr un rhesymau â'r ddyletswydd ei hun. Yn benodol, mae Atodlen 2 yn diffinio awdurdod cyhoeddus ("public authority") a swyddog cyhoeddus ("public official"). Felly, mae'r darpariaethau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 9 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol gan bobl sy'n gweithio iddynt, ac i gymryd camau i gynnal y safonau hynny. Mae'r diffiniad o awdurdodau cyhoeddus (a geir yn Atodlen 2) yn cynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac Awdurdodau Cymreig Datganoledig eraill. Felly, mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd ei fod yn rhoi swyddogaethau i Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

- Mae cymal 10 yn rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar faterion sy'n ymwneud â Phennod 2 o Ran 2 o'r Bil ac yn gosod gofyniad ar gyrff cyhoeddus (sy'n cynnwys Awdurdodau Cymreig Datganoledig) i roi sylw i ganllawiau a ddyroddir o dan y cymal hwn. Gan ei fod yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Cymreig Datganoledig, mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 12 yn creu trosedd o gyflawni gweithred amhriodol ddifrifol wrth ddal swydd gyhoeddus. Ymhlith y rhai sy'n gallu cyflawni'r drosedd hon mae Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion eraill Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Aelodau'r Senedd neu unrhyw gorff neu swyddfa a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Mae gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i greu trosedd o fath tebyg mewn cysylltiad â'r unigolion a'r endidau hyn, ac felly mae'r cymal yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 14 yn diffinio cwmpas tiriogaethol, ymhlith pethau eraill, y drosedd a grëir gan gymal 12 ac felly'n diffinio ei chwmpas. Felly, mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol am yr un rhesymau a roddir mewn cysylltiad â chymal 12.

- Mae cymal 15 ac Atodlen 4 yn diffinio pryd y mae unigolyn yn dal swydd gyhoeddus ("holds public office") at ddibenion Rhan 2 a sut y gellir diwygio'r diffiniad (mewn rhai achosion gan Weinidogion Cymru neu gyda'u cydsyniad yn unig). Felly, mae'r ddarpariaeth hon yn diffinio cwmpas y drosedd a grëir gan gymal 12 ac yn gwneud darpariaeth berthnasol am yr un rhesymau a roddir mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth honno. Yn ogystal, mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol oherwydd ei fod yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru.

- Mae cymal 16 yn diddymu'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus sy'n effeithio ar atebolrwydd troseddol posibl deiliaid swyddi fel y rhai a restrir yn Atodlen 4 ac felly'n cael effaith sylweddol ar faterion datganoledig. Am y rheswm hwn, mae'r cymal hwn yn gyfystyr â darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 18 ac Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth a diwygiadau i ddeddfwriaeth sydd, ymhlith pethau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i faterion penodol ac yn gwneud

darpariaeth ynghylch pryd y caniateir i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio cynrychiolydd cyfreithiol i'w cynrychioli mewn ymchwiliadau yn y DU. Wrth wneud darpariaeth o'r fath, mae cymal 18 ac Atodlen 6 yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus (rhai ohonynt yn Awdurdodau Cymreig Datganoledig) ac felly'n gyfystyr â darpariaeth berthnasol. Fodd bynnag, nid yw diwygiadau a wneir gan y darpariaethau hyn mewn perthynas â materion eraill (e.e. cymorth cyfreithiol a chrwneriaid) yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 20 yn diddymu adran 46 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Roedd adran 46 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu a ddylid gosod dyletswyddau gonestrwydd a thryloywder ychwanegol ar swyddogion cyhoeddus. Mae'r ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac yn ymwneud yn y pen draw â swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig (fel cyrff cyhoeddus). Felly, mae'n gyfystyr â darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 21 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol ac felly'n gyfystyr â darpariaeth berthnasol.

- Mae cymal 22 yn ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf ac yn rhoi iddynt y swyddogaeth o roi neu atal cydsyniad mewn perthynas â gwneud rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Felly, mae'n gyfystyr â darpariaeth berthnasol.

- Mae cymalau 23 i 25 (dehongli cyffredinol, rhychwant a chychwyn) yn rhannau gweithredol o'r Bil. Gan fod y rhan fwyaf o'r Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol, mae'r darpariaethau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth berthnasol am yr un rhesymau a roddir mewn perthynas â chymalau eraill.

**Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

15. Mae'r Bil yn rhoi'r pwerau gwneud rheoliadau canlynol i Weinidogion Cymru:

    - Cymal 15(4) – Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o ddal swydd gyhoeddus ("holds a public office") at ddibenion Rhan 3 o'r Bil drwy ychwanegu, hepgor neu addasu, cyhyd â bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru yn unig. Mae rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

    - Cymal 21(3) – Pŵer i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i reoliadau a wneir o dan y Bil. Mae rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon, ac i'r weithdrefn negyddol os nad ydynt yn gwneud hynny.

- Paragraff 7(1) o Atodlen 1 – Pŵer i estyn y ddyletswydd gonestrwydd a chymorth i fathau penodol o archwiliad. Mae rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oni bai eu bod yn cael eu gwneud mewn achosion brys (gweler paragraff 8 o'r Atodlen) a'u bod yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag archwiliadau penodol (yn hytrach nag archwiliadau o ddisgrifiad penodedig yn unig). Mewn achosion o'r fath, rhaid gosod y rheoliadau gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a byddant yn peidio â chael effaith ar ôl 40 o ddiwrnodau oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd.

- Paragraff 4(4) o Atodlen 2 – Pŵer i bennu swyddogaethau o natur gyhoeddus at ddibenion paragraff 4(3) o Atodlen 2 (sy'n cael yr effaith o wneud endid sy'n arfer y swyddogaethau hynny yn "awdurdod cyhoeddus" at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 o'r Bil). Mae rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

16. Dylid nodi, os na fydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol cyn 1 Ionawr 2026, efallai y bydd rhaid diwygio cyfeiriadau at offerynnau statudol a'r gweithdrefnau ar gyfer offerynnau statudol yn y Senedd yn unol â Rhan 2A o Fil Deddfwriaeth (Cymru).

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

17. Cynhaliodd cynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eu dadansoddiad datganoli eu hunain gyda'r Swyddfa Gymreig ac maent wedi nodi pa rannau o'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn eu barn hwy (atgynhyrchir y dadansoddiad hwn yn Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol).

18. Mae Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig yn nodi y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd. Fodd bynnag, maent hefyd yn cydnabod y gall sefyllfaoedd godi pan fydd er budd gorau Cymru i gynnwys darpariaethau mewn Biliau ar gyfer y DU. Mae'r Bil hwn, fel y nodwyd uchod, yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl ac felly efallai y bydd er budd gorau Cymru i gynnwys darpariaethau yn y Bil hwn ar gyfer y DU yn unol â'r Egwyddorion.

19. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, 10, 12, 14, 15, 16 a 18 (yn rhannol) ac Atodlenni 1 (ond nid Rhannau 3, 4 a 5 o'r Atodlen honno), 2, 3 a 4 ac mae'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i sbarduno.

20. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymal 11.

21. Fodd bynnag, o ran y cymalau a fydd yn sbarduno'r broses Cynnig Cydsyniad, mae rhywfaint o wahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn cynnwys crynodeb ynghylch a yw'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i sbarduno ar gyfer pob cymal, tra mae Dadansoddiad Datganoli Llywodraeth y DU yn cynnwys trosolwg o gymhwysedd ar gyfer pob Rhan o'r Bil i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Dadansoddiad Datganoli yn cyfeirio at y Canllawiau ar Ddatganoli ym mharagraff 1, ond nid yw'n sôn am y prawf a nodir yn RhS 29.

22. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn *nad* yw'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i sbarduno ar gyfer cymalau 6, 13 a 17, Rhannau 3 i 5 o Atodlen 1 ac Atodlen 5. Mae cymal 6 yn cymhwyso'r ddyletswydd newydd i wasanaeth cuddwybodaeth fel y mae'n gymwys i awdurdodau cyhoeddus eraill, ac felly'n ymwneud â "diogelwch gwladol" sy'n fater a gedwir yn ôl. Mae cymal 13 yn creu trosedd mewn cysylltiad â pherson sy'n dal swydd gyhoeddus ac mae'n bosibl dadlau y gellid ystyried hyn yn "drosedd yn erbyn y person" sy'n fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 4(1)(b) a (2)(b) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru o ystyried bod y drosedd wedi'i rhestru yn y categori o droseddau a gedwir yn ôl. Mae paragraff 4(2)(b) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cadw'n ôl droseddau eraill yn erbyn y person y gellir eu rhoi ar brawf ar dditiad yn unig. Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan gymal 13(4) yn agored ar euogfarn ar dditiad i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na 14 mlynedd. Mae cymal 17 yn cyflwyno Atodlen 5 sy'n gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ganlyniadol i Ran 3 o'r Bil mewn meysydd a gedwir yn ôl yn benodol yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i sbarduno'n rhannol ar gyfer cymal 18.

23. I'r gwrthwyneb ar gyfer Atodlen 6, nid yw Llywodraeth y DU yn ystyried bod y broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i sbarduno ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi'i sbarduno'n rhannol gan ei bod yn addasu swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig oherwydd bod y dyletswyddau yn swyddogaeth Awdurdod Cyhoeddus (gweler hefyd gymal 18 sy'n cyflwyno Atodlen 6).

24. Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu dadansoddiad cyfreithiol ar gyfer cymalau 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25 a 26 ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymal 19 gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r Goron ac (asiantau i'r Goron) ac mae'r Goron yn fater a gedwir yn ôl. Mae cymalau 20-25 yn faterion datganoledig ac mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer. Nid oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer cymal 26 gan ei fod yn ymwneud â rhan weithredol y Bil ac nad oes ganddo unrhyw effaith gyfreithiol.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)**

25. Rwy'n credu, yn achos y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd), fel mater o egwyddor, y byddai cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru. Mae hwn yn Fil proffil uchel y mae rhanddeiliaid wedi galw amdano a'i gefnogi a'i groesawu i atal methiannau ac achosion o gamweinyddu cyfiawnder ar gyfer dinasyddion Cymru yn y dyfodol.

26. Mae'r Bil wedi bod yn llygad y cyhoedd i raddau helaeth. O ystyried natur sensitif gwreiddiau'r Bil, credaf ei bod yn ddymunol i ddinasyddion y DU wybod bod yr un amddiffyniadau cyfreithiol sylfaenol yn gymwys ble bynnag yn y DU y gallai digwyddiad ddigwydd yn y dyfodol. Credaf fod manteision i reolau cyson sy'n llywodraethu gwahanol weision cyhoeddus, ni waeth pwy fo'u cyflogwr uniongyrchol. Mae'n ymddangos bod y Bil hefyd yn taro cydbwysedd priodol rhwng hyrwyddo diwylliant o onestrwydd a thryloywder a chaniatáu ar gyfer gwahanol fesurau a dulliau penodol o orfodi'r diwylliant hwnnw yn amgylchiadau ardaloedd unigol.

27. Er yr ymddengys fod rhai darpariaethau yn y Bil yn dyblygu mecanweithiau presennol yng Nghymru (neu efallai yn ehangu arnynt) (sefydlwyd Dyletswydd Gonestrwydd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a Fframwaith Moesegol o fewn Llywodraeth Leol drwy Orchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001), byddai'r Bil yn ehangu ac yn gwella disgwyliadau ar draws y sector cyhoeddus, gan ysgogi diwylliant o berfformiad gwell a darparu sicrwydd i'r cyhoedd a swyddogion cyhoeddus.

28. Mae'r Bil yn torri ar draws materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, ac ni ellid ei gyflwyno yn yr un modd, nac o fewn yr un amserlen, mewn Bil gan y Senedd ar hyn o bryd.

29. Felly, credaf y byddai'n ddymunol mewn egwyddor i'r Bil ymestyn i Gymru ac iddo gael ei gymhwyso'n gyfartal i feysydd datganoledig a meysydd a gedwir yn ôl.

30. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae cyfyngiadau ar rannu dogfennaeth ac ymgysylltu'n ehangach y tu allan i Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag oedi wrth gael drafft llawn a terfynol, wedi gwneud ymgysylltu ac ymgynghori yn heriol. Ni atebwyd nifer o'r cwestiynau a holwyd.

31. Mae effaith a goblygiadau'r Bil hwn yn arwyddocaol i Gymru a'i dinasyddion yn ogystal â'i sefydliadau. Heb y gallu i ymgysylltu'n llawn â'n rhanddeiliaid, rydym wedi bod yn gyfyngedig yn ein gallu i asesu a deall yr effaith y gall y Bil ei chael ar ddeddfwriaeth bresennol Cymru a gwasanaethau Cymru. Mae cymhlethdod a gwahaniaethau cynnil o ran cymhwyso'r Bil yng Nghymru sy'n hanfodol inni eu hystyried. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig eraill wedi rhannu safbwyntiau a phryderon tebyg am y diffyg ymgysylltu yn gyffredinol.

32. Mae rhywfaint o bryder, mewn rhai meysydd polisi ynghylch sut y diffinnir deiliaid swyddi cyhoeddus, pan na fo'r unigolyn neu'r awdurdod wedi'i gynnwys yn benodol o dan un o'r diffiniadau neu'r categorïau eraill.

33. Mae'r cysyniad o "resymolrwydd" yn creu ansicrwydd cyfreithiol (ar y dechrau o leiaf) ynghylch yr hyn sy'n rhesymol a'r hyn nad yw'n rhesymol yng nghyd-destun y ddyletswydd benodol hon, gan nad yw "rhesymolrwydd" wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth arfaethedig hon.

34. Mae'r trothwy ar gyfer y drosedd yn uchel. Mae'n darparu ar gyfer trosedd gyda bwriad neu drwy fyrbwylltra, yn hytrach na dim ond drwy ddiofalwch neu esgeulustod ond gall profi bwriad i gamarwain fod yn heriol.

**Goblygiadau ariannol**

35. Yn fras, mae'r mesurau yn y Bil yn ymwneud ag ymddygiadau a chreu dogfennaeth ategol gan Awdurdodau Cyhoeddus – disgwylir rhai costau cyfyngedig sy'n gysylltiedig â pharatoi. Mewn perthynas â'r mesurau Camymddwyn mewn Swydd, gan nad oes unrhyw fwriad i ehangu neu newid cwmpas y gyfraith trosedd yn sylweddol, disgwylir i gost y newidiadau hyn fod yn fach.

36. Mae'r prif oblygiadau ariannol yn deillio o ehangu cymorth cyfreithiol nad yw'n dibynnu ar brawf modd pan fo awdurdod cyhoeddus wedi'i enwi fel person â buddiant mewn cwest. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd hyn yn costio rhwng £65m a £180m y flwyddyn, ac amcangyfrifir costau gweithredol pellach o hyd at £3.1m y flwyddyn i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'n rhan o farn Llywodraeth y DU y dylai awdurdodau cyhoeddus neu eu hadrannau gwladol cyfrifol gyfrannu tuag at gost cymorth cyfreithiol i deuluoedd mewn profedigaeth pan fônt yn Berson â Buddiant mewn cwest. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ofyniad deddfwriaethol, ac mae Cymorth Cyfreithiol yn parhau i fod yn fater a gedwir yn ôl yng Nghymru. Felly, er bod goblygiadau o ran cost, ein disgwyliad yw y bydd unrhyw gost ychwanegol yn cael ei thalu gan Lywodraeth y DU. Byddai angen inni sicrhau bod y cyllid yn llifo'n briodol i'r mannau lle mae ei angen. Ar y sail honno, yn gyffredinol, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u nodi.

**Casgliad**

37. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU o ystyried natur broffil uchel a thrawsbynciol y polisi. Bydd dull o'r fath yn lleihau cymhlethdod, yn gwneud y gyfraith mor eglur a chydlynol â phosibl ac yn caniatáu dull cyson ledled y DU. Mae'n ehangu ac yn gwella'r darpariaethau presennol yng Nghymru ochr yn ochr â disgwyliadau ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus. Ni fyddai'n bosibl fel arall i ddarpariaeth amgen neu debyg a wneir yng Nghymru gael ei chyflwyno yn unol ag amserlen addas. Mae rhai darpariaethau allweddol

yn y Bil wedi'u cadw yn ôl, sy'n golygu na allai deddfwriaeth Cymru atgynhyrchu'r cynllun yn y ddeddfwriaeth hon yn llawn na gwneud hynny mewn ffordd gwbl gydlynol.

38. Fodd bynnag, o ran effaith y Bil, mae angen dadansoddi ymhellach ddull cymhwyso penodol y cymalau yn y Bil.

39. Felly, er fy mod yn gefnogol i'r egwyddorion yn y Bil, byddaf yn ceisio rhagor o wybodaeth am weithredu'r Bil cyn y gallaf argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Huw Irranca-Davies AS,**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**2 Hydref 2025**

Mae **Atodiad A** o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn cynnwys casgliadau Llywodraeth y DU ynghylch pa ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Ceir copi ohono isod.

| **Darpariaeth** | **Cymru** | |
|---|---|---|
| | **Yn ymestyn i Gymru a Lloegr ac yn gymwys i Gymru?** | **Proses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i sbarduno?** |
| Cymal 1 | Ydy | Ydy |
| Cymal 2 | Ydy | Ydy |
| Cymal 3 | Ydy | Ydy |
| Cymal 4 | Ydy | Ydy |
| Cymal 5 | Ydy | Ydy |
| Cymal 6 | Ydy | Ydy |
| Cymal 7 | Ydy | Ydy |
| Cymal 8 | Ydy | Ydy |
| Cymal 9 | Ydy | Ydy |
| Cymal 10 | Ydy | Ydy |
| Cymal 11 | Ydy | Nac ydy |
| Cymal 12 | Ydy | Ydy |
| Cymal 13 | Ydy | Ydy |
| Cymal 14 | Ydy | Ydy |
| Cymal 15 | Ydy | Ydy |
| Cymal 16 | Ydy | Ydy |
| Cymal 17 | Ydy | Ydy |
| Cymal 18 | Ydy | Nac ydy |
| Cymal 19 | Ydy | |
| Cymal 20 | Ydy | |
| Cymal 21 | Ydy | |
| Cymal 22 | Ydy | |
| Cymal 23 | Ydy | |
| Cymal 24 | Ydy | |
| Cymal 25 | Ydy | |
| Cymal 26 | Ydy | |
| Atodlen 1 | Ydy | Ydy |
| Atodlen 2 | Ydy | Ydy |

| **Darpariaeth** | **Cymru** | |
|---|---|---|
| | **Yn ymestyn i Gymru a Lloegr ac yn gymwys i Gymru?** | **Proses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i sbarduno?** |
| Atodlen 3 | Ydy | Ydy |
| Atodlen 4 | Ydy | Ydy |
| Atodlen 5 | Ydy | Ydy |
| Atodlen 6 | Ydy | Nac ydy |